PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 42 | Hydref 17, 2024 | 50c.




## GOFALAETH BRO NANT CONWY

*Yn ddiweddar mae Gofalaeth Bro Nant Conwy Cyfundeb Gogledd Arfon wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn cymorth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg drwy'r Rhaglen Arloesi a Buddsoddi.*

### Prif amcanion y project arloesi yma ydi:

1. Ysgogi gweithgarwch drwy gydlyniad y gweinidog o fewn yr ofalaeth fro.
2. Gwneud cysylltiadau ymarferol pellach gyda mudiadau o fewn cymdeithasau yn cynnwys chwaraeon.
3. Sicrhau parhad a chynnydd mewn gweithgareddau Cristnogol i blant a phobl ifanc
4. Gweithio gyda theuluoedd y byd amaeth ac ar yr un pryd eu tynnu yn nes at eglwysi.
5. Ymhob peth sicrhau parhad tystiolaeth Gristnogol yn yr ardaloedd gwledig gan gael pobl i weld gwerth yn eu diwylliant a'u hetifeddiaeth Gristnogol
6. Trwy gael pobl at ei gilydd mewn cydaddoliad a rhoi sylw i unigrwydd ac iechyd meddwl a lles trigolion cefn gwlad

### Datblygu'r gwaith

Drwy'r project bwriedir parhau a chynyddu'r gweithgaredd yn yr ardaloedd gwledig, gyda chymdeithasau a chlybiau a chyda theuluoedd. Bydd y gwaith o genhadu yn bwysig drwy'r project. Mae'r grant hwn wedi galluogi'r Parchedig Owain Davies i ganolbwyntio am ddiwrnod a hanner yr wythnos ar waith arloesi drwy weithio'r tu hwnt i furiau'r capeli. Mae bywydau teuluoedd wedi newid cymaint dros y blynyddoedd ac mae rhaid i rôl y capeli addasu i fod lle mae'r bobl.

Teimla Owain yn gryf fod yn rhaid creu perthynas glos er mwyn dod a gair Duw i bawb o fewn eu gweithgareddau bob dydd. Mae'r eglwys heb furiau yn mynd allan i'r gymuned a bod yn rhan ragweithiol o fywydau pobl a hefyd wrth gwrs unwaith mae'r perthynas wedi ei greu croesawu pobl i weithgareddau'r eglwys.

### Clybiau

Mae'r gwaith yn parhau i fod yn llewyrchus gyda nifer o glybiau plant ac ieuenctid, gweithgareddau cymdeithasol a chaplaniaeth chwaraeon.

Isod mae rhagflas o rai o'r gweithgareddau. Rydym yn teimlo'n ffodus iawn i dderbyn y cyllid hwn ac yn ddiolchgar i Undeb yr Annibynwyr am eu cefnogaeth. Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i'r holl aelodau a chyfeillion yr ofalaeth sydd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith cyffrous yma.



*Trip diwedd tymor y clybiau CIC i Zip World, Dolgarrog, gydag oddeutu 80 o blant a phobl ifanc.*



*Taith y Pasg. Mae perthynas gydag ysgolion lleol yn bwysig iawn a chyfle i ymweld â'r ysgol ar gyfer gwasanaethau/digwyddiadau a hefyd cyfle i wahodd ysgolion i mewn i'n heglwysi. Un enghraifft o hyn yw gwahodd ysgolion i Daith y Pasg fel bo hanes y Pasg yn dod yn fyw a gweledol i'r plant.*



*Fel rhan o'n rôl fel caplan y clwb rygbi lleol, trefnwyd gwasanaethau yn y clwb gyda phobl o bob oedran yn cymryd rhan.*



*Cystadleuaeth Cwpan CIC, sef cystadleuaeth pêl-droed i glybiau CIC yr ofalaeth.*

# Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn

Cynhaliwyd y Cwrdd Chwarter ar nos Fawrth, 10 Medi, yng nghapel Moriah, Gwalchmai a daeth ychydig dros ugain o bobl i'r cyfarfod. Llywyddwyd gan y Parchg Geraint Tudur ac yn absenoldeb yr ysgrifennydd, Edward Morus Jones, cytunodd y Parchg Ron Williams i ofalu am y cofnodion.

Wedi i'r cadeirydd groesawu pawb a diolch i gyfeillion Moriah am gael dod yno, daeth Mrs Edna Jones, aelod o'r eglwys, ymlaen i arwain y defosiwn. Darllenodd adnodau o Efengyl Luc cyn arwain mewn gweddi. Adroddwyd Gweddi'r Arglwydd gan y gynulleidfa.

Cafwyd braslun wedyn gan Mrs Jones o sefyllfa eglwys Moriah ar hyn o bryd. Daw tua 15 i'r oedfa ac, er nad oes ysgol Sul, mae'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr yn gweithio'n galed i gynnal yr achos.



Cynhelir oedfaon rheolaidd ac ambell i gwrdd gweddi, ac agorir y drysau led y pen i'r gymuned ar adeg Sul y Cofio, Diolchgarwch a'r Nadolig.

Wedi i'r ymddiheuriadau am absenoldeb o'r cyfarfod gael eu nodi, cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a derbyniwyd hwy gydag un cywiriad. Yn codi o'r cofnodion, yr oedd mater ethol ysgrifennydd cynorthwyol, ac wedi trafodaeth a phenderfynu newid noson y cwrdd chwarter i nos Fercher gyntaf y mis perthnasol, etholwyd Irfon Morris, Llanfairpwll. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i Is-gadeirydd newydd.

Mewn ymateb i gais gan y Parchg Aled Davies a Chyhoeddiadau'r Gair, penderfynwyd cyfrannu £300 at gostau cyhoeddi cyfrol ddiweddaraf y Parchg Huw John Hughes.

Cyflwynodd y trysorydd, Bryn Mortimer Roberts, adroddiad ariannol manwl, a phenderfynwyd rhoi grant i eglwys Berea, Pentre Berw ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw yn y tŷ capel.

Wedi diolch eto i bawb am eu presenoldeb a'u cwmni, daeth y Cadeirydd a'r cyfarfod i ben gyda gweddi dros y claf a'r galarus, a chyhoeddi'r fendith.

*(allan o* Llais y Tabernacl a'r Capel Mawr, *Porthaethwy, Hydref 2024)*

# Y Cyngor

Cynhelir cyfarfod o Gyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar 23 Hydref yn Llety Parc, Aberystwyth, o dan gadeiryddiaeth Mrs Annalyn Davies. Yn ystod y bore fe geir cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol y Parchg Dyfrig Rees yn adrodd am waith yr Undeb. Bydd yn eithriadol o ddiddorol clywed adroddiad y Parchg Carwyn Siddall am ei waith fel Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau oherwydd clywsom y bu datblygiadau cyffrous a chadarnhaol yn ystod y misoedd diwethaf.

### Sabothol

Cyn cinio fe geir cyflwyniad yn dwyn y teitl 'Ffrwyth Cyfnod Sabothol' gan ddau fu ar gyfnod Sabothol yn lled ddiweddar sef y Parchedigion Alun Tudur a Casi Jones. Teitl sgwrs Alun fydd 'Mawredd yn y mieri' a theitl Casi fydd 'Dadorchuddio'r Adda'. Dau deitl gogleisiol sy'n creu cywreinrwydd. Ysgwn i beth fydd y ddau yn ei rannu gyda ni? Amser a ddengys.

### Prynhawn

Ar ôl cinio bydd y cyngor yn trafod ac yn ystyried beth allai fod ar agendâu'r adrannau, fydd yn cyfarfod yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Hefyd fe geir diweddariad am weithgareddau *Y Tyst*, Rhwydwaith Merched, Swyddogion Cyswllt Cyfundebau, Heddwch ac Apêl Ffynhonnau Byw, gan gloi gyda phenderfyniadau. Felly fe fydd yn ddiwrnod llawn i drafod gwaith Ei Deyrnas yn ein plith ac i annog ein gilydd i bydru arni'n egnïol.

## Eglwys Nebo Felindre Abertawe

Cynhelir

# OEDFA ARBENNIG

i ddathlu

**Daucanmlwyddiant yr eglwys**

**Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024**

**am 2.00.**

**Llywydd:**
**Y Parchg Meirion Evans**
**Porth Tywyn**

**Croeso cynnes i bawb**

**Te'r dathlu, wedi'r oedfa, yn neuadd y pentref**

**Maes parcio: neuadd y pentref**

Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 17 2024 RHIF 190

# Cyflwyno Myfyrwyr Blwyddyn Gap Coleg y Bala 2024–5

Bob blwyddyn ers 1997 mae pobl ifanc o Gymru benbaladr ac ymhellach na hynny wedi bod yn dod i Ganolfan Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Coleg y Bala, er mwyn rhoi blwyddyn, neu ran o flwyddyn, mewn gwasanaeth i'r Arglwydd. Wrth wneud hynny maen nhw'n ehangu eu profiad ac yn cael cyfleoedd i wasanaethu ar gyrsiau yn y Ganolfan ochr yn ochr â'r gweithwyr sydd yno. Erbyn hyn mae nifer ohonyn nhw'n gweithio i fudiadau Cristnogol, rhai yn arwain eglwysi, eraill yn plannu eglwysi neu'n weithgar yn eu heglwysi yn lleol.

Eleni mae pedwar wedi ymuno yn y Bala. Darllenwch ymhellach wrth iddyn nhw rannu eu cymhellion a'u gobeithion. Cofiwch amdanyn nhw ac am y gwaith sy'n digwydd yn y Ganolfan ac wrth gefnogi eglwysi gyda'u gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd.




O'r chwith i'r dde, Shaina, Sioned, Deborah a Tomos

### Sioned Elliw Roberts – 18 oed o'r Bala

Cefais fy magu mewn teulu sydd ddim yn Gristnogion ond ym mis Chwefror 2023, yn ystod Aduniad Souled Out yng Ngholeg y Bala, teimlais bresenoldeb Iesu a chychwynnodd fy siwrnai ffydd. Rwy'n ddiolchgar am yr holl gyfleoedd rwyf wedi eu derbyn dros y blynyddoedd gan Goleg y Bala. Mae hyn wedi dylanwadu ar fy hunan-werth a fy hyder. Dwi'n credu y bydd y flwyddyn gap yn ffordd o allu talu 'nôl am yr holl anogaeth mae'r coleg wedi'i rhoi i mi dros y blynyddoedd. Dwi'n gobeithio gwasanaethu'r coleg drwy fuddsoddi amser yn y plant a'r ieuenctid, a'u hannog nhw ar eu siwrnai ffydd. Dwi hefyd yn gobeithio y bydd y flwyddyn gap yn help i mi dyfu yn fy ffydd bersonol, yn cryfhau fy mherthynas gyda Duw, ac yna'n magu'r hyder imi allu rhannu am Dduw gydag eraill.

Byddaf yn gwerthfawrogi eich gweddïau dros y gwaith y byddaf yn ei gyflawni yn ystod y flwyddyn yng Ngholeg y Bala. Fy ngweddi yw y bydd y plant a'r ieuenctid sy'n dod yma yn teimlo yr un mor gartrefol yma ag rydw i. Diolch yn fawr iawn.

### Deborah Parry – 21 oed o Gaernarfon

Helo, fy enw i yw Deborah. Fel person un ar hugain oed, rydw i wedi cael blas o sut deimlad yw bod eisiau i bopeth weithio allan a hynny'n gyflym. Rydw i wedi bod yn gweithio'n galed tuag at ddod yn berfformiwr ar lwyfan a theledu ers i mi astudio drama yn bymtheg oed. Yng nghanol hynny, rydw i wedi cael trafferth gyda dod o hyd i le i weddi a darllen y Beibl lle bynnag y byddaf.

Tu ôl i fy angerdd dros berfformio roedd angerdd tanbaid bob amser i wneud ewyllys Duw heb unrhyw deimlad o gyfaddawdu nac eilunaddoli fy llwybr gyrfa. Roedd sylwi pa mor fregus a thoredig oedd nifer o fy nghyd-fyfyrwyr a sylwi ar y diffyg sgyrsiau a gefais am Iesu yn dechrau fy mhoeni, a hynny yn fwy na fy niffyg cyfleoedd yn y celfyddydau. Roedd treulio amser gyda fy mherthnasau agos a'u plant yn fy atgoffa o bwysigrwydd dangos cariad a neges Duw iddyn nhw yn fwy na meddwl amdana i a'r hyn rydw i eisiau ar gyfer fy nyfodol.

Dwy flynedd ar ôl cwblhau fy mlwyddyn olaf yn y dosbarth celfyddydau perfformio, rydw i wedi dewis buddsoddi mwy o fy amser yng ngwaith Duw trwy Goleg y Bala. Rwyf wedi bod yn ymweld â'r lle hwn ers pan oeddwn yn dair ar ddeg oed, ac rwyf yn ystyried hwn fel fy ail gartref. Rhwng yr ysgol a'r perfformio i gyd, arweinwyr Coleg y Bala a ddyfrhaodd yr hedyn ffydd yn fy nghalon, a sylweddolais fy mod am wneud yr un peth i eraill. O ran rhannu'r efengyl, rhywbeth rydw i bob amser wedi cael trafferth ag ef yw dewrder.

Eleni, rwy'n gobeithio cael mwy o hyder i rannu'r efengyl yn ogystal ag ymgysylltu â phawb. Rwy'n gobeithio y gallaf weld pobl yn derbyn Iesu i'w bywydau, gweld cadwyni'n torri a phwysau'n cael eu codi. Rwyf am fod yn rhan o ddod â llawenydd i ddiwrnod pobl ac yn llais anogaeth i lawer yn ystod fy nghyfnod yng Ngholeg y Bala. Fy ngweddi yw y bydd popeth rydw i'n ei ddysgu yn aros gyda mi ac yn dod â gogoniant a chlod i Dduw.

### Tomos Gwynfor Edwards – 21 oed o Lanuwchllyn

Dwi wedi bod yn mynychu cyrsiau Coleg y Bala ers yn blentyn, ac wedi gweld y fendith maen nhw wedi bod i gymaint o blant ac ieuenctid, ac i mi'n bersonol. Felly, dwi eisiau gwneud y flwyddyn gap am y tymor yma i helpu i wasanaethu mewn gwaith sy'n bendithio plant a phobl ifanc Cymru. Mae gwaith Coleg y Bala hefyd wedi fy ysbrydoli i wneud gwaith Plant ac Ieuenctid fel swydd yn y dyfodol, ac mae'r flwyddyn gap yn gyfle i mi ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny!

Dim ond un tymor o'r flwyddyn gap fydda i'n ei wneud oherwydd dwi'n mynd i weithio mewn cenhadaeth efo'r eglwys yn Japan ym mis Ionawr. Penderfynais fynd mis Ionawr nesaf yn lle Tachwedd yma oherwydd o'n i'n meddwl ei fod yn bwysig i mi gael yr amser i allu tyfu'n ysbrydol ac ailffocysu ar Dduw trwy dreulio amser gyda'r staff a'r myfyrwyr blwyddyn gap eraill. Fe fydda i'n cael cyfle i sylwi ar eu ffydd nhw a dysgu oddi wrthyn nhw! Mi fuaswn i' n gwerthfawrogi gweddi y bydda i'n llwyddo i wneud hyn a holl waith y flwyddyn gap tra'n dal i godi arian i wirfoddoli yn Japan gyda OMF! Diolch yn fawr i chi.

### Shaina Boyce – 20 oed o Bontypridd

Hia! Shaina ydw i ac rydw i wedi teithio'r holl ffordd o Bontypridd yn ne Cymru. Rhan o'r rheswm y des i yma oedd am y 'change of scenery', yn ogystal ag atgyfnerthu'r newid tymor yma yn fy mywyd. Rwyf wedi gwneud llawer o bethau yn fy mywyd wrth dyfu i fyny. Dim ond ar ôl Covid y dechreuais weld llaw Duw ar fy mywyd.

Yn 2022 dechreuais fy mlwyddyn gap gyntaf ym Manceinion ac rwy'n teimlo fel bod Duw wedi rhoi calon fwy i mi dros bobl, yn enwedig ieuenctid. Rwy'n teimlo fel bod Duw wedi defnyddio'r profiad hwnnw i'm harfogi ar gyfer yr un nesaf yma. Dyma'r prif reswm i mi ddewis dod i Goleg y Bala. Yn ystod fy amser yma rydw i wir yn gweddïo y bydd y bobl ifanc rydw i'n cwrdd â nhw yn dod i gysylltiad â Duw ar lefel ddyfnach. Rwy'n edrych ymlaen at gamu i fyny i arwain pobl ifanc mewn rhai meysydd a'u gwylio'n ffynnu yn eu ffydd. Dwi'n dysgu Cymraeg, felly mi fuaswn wir yn gwerthfawrogi eich gweddïau dros hynny yn ogystal â'r uchod. Diolch yn fawr i chi.

# BWLETIN POLISI Cytûn

## HYDREF/TACHWEDD 2024

Diolch i Cytûn a'r Parch. Gethin Rhys am y rhifyn diweddaraf o'u Bwletin Polisi. Mae'n amlinellu llawer o'r hyn sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol inni fel eglwysi yng Nghymru ynglŷn â'n llywodraeth a'r mudiadau y gallwn gydweithio â nhw er mwyn gwasanaethu ein cymunedau. Rhoddir crynodeb yma o rai o'r erthyglau a cheir mynediad at y Bwletin yn llawn ar y ddolen hon: https://www.cytun.co.uk/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2024/

### Blaenoriaethau Newydd a Chabinet Newydd i Lywodraeth Cymru

Yn dilyn cyfnod helbulus yn Llywodraeth Cymru, fe ddaeth y Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan AS, gerbron Senedd Cymru ar Fedi 17 i gyflwyno'i blaenoriaethau ar gyfer llywodraethu ac i gyflwyno'i Chabinet newydd fydd yn gweithredu'r blaenoriaethau hynny.

Fe ddywedodd i'r blaenoriaethau hynny gael eu siapio gan sgyrsiau a gafodd gyda'r cyhoedd ledled Cymru dros yr haf. Nid oedd hi'n syndod clywed fod pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd, safonau addysgol mewn ysgolion a thrafnidiaeth ar y rheilffyrdd a'r heolydd yn flaenoriaethau amlwg. Pwysleisiodd hefyd yr angen am dwf economaidd trwy gyfrwng creu "swyddi gwyrdd".

Roedd effaith y rheoleiddio cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar fywyd eglwysi yng Nghymru yn fater a godwyd gan Cytûn wrth ysgrifennu i longyfarch y Prif Weinidog – sydd ei hun o gefndir eglwysig – adeg ei phenodi.

### Cytûn yn cefnogi Partneriaeth Hapus




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio Sgwrs Genedlaethol ar Les Meddyliol, ac mae Cytûn wedi ymuno fel cefnogwr Hapus. Mae Hapus ar Facebook, Instagram ac X. Mae gwefan Hapus yn cynnwys blogiau byr gan lawer o wahanol bobl yng Nghymru am yr hyn sy'n helpu eu lles meddyliol. Rydym yn awyddus i annog blogbyst gan bobl o ffydd am eu profiadau cadarnhaol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu blog, e-bostiwch: HI-Programme.Support@wales.nhs.uk gan nodi eich bod yn rhan o gymuned Cytûn.

### Safe Families a Home for Good yn uno

Mae Safe Families a Home for Good, dau fudiad sy'n aelodau gyda Cytûn, wedi cyhoeddi eu bod yn uno, ar sail gweledigaeth uchelgeisiol o weld teuluoedd yn ffynnu. Mae Home for Good wedi gweithio gyda'r eglwys i ddod o hyd i gartrefi all feithrin plant na allant aros gyda'u teuluoedd genedigol.




Neil Davies o Home for Good yn Eglwys y Santes Catrin, Pontypridd, yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol

Ym mis Awst, roedd Home for Good a Safe Families yn bresennol am yr wythnos gyfan fel rhan o gyfraniad Cytûn i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Yn y gwasanaeth amser cinio dydd Gwener siaradodd Arfon Jones yn ysbrydoledig am stori fabwysiadu wych a heriol ei deulu ei hun. Mae Home for Good wedi lansio cronfa gynyddol o adnoddau Cymraeg. Gallwch ddod o hyd i dair stori o Gymru ar-lein, yn Gymraeg ac yn Saesneg: stori Heulwen ('Etifeddion'), stori Catherine a stori Dan. Mae fideo 38,000 Home for Good ar gael mewn fersiwn Gymraeg a fersiwn acen Gymreig (Saesneg).

### Paratoi'r ymgyrch Croeso Cynnes ar gyfer y gaeaf hwn

Bu llawer o eglwysi Cymru yn cynnal Hybiau Cynnes (dan amrywiol enwau) dros y gaeafau diweddar. Gyda phrisiau tanwydd yn codi eto, a lwfans tanwydd gaeaf llawer o bensiynwyr wedi'i ddileu, bydd llawer o aelod eglwysi yn dymuno cynnal gofodau o'r fath eto. Mae Cytûn yn annog eglwysi sy'n dymuno gwneud hynny i gofrestru gyda'r ymgyrch Croeso Cynnes, sy'n ceisio cydlynu hybiau ymhob cymuned. Lansiwyd yr ymgyrch ar 3 Hydref, yn ogystal â'r Addewid 100%, sydd â'r nod o sicrhau bod gan bawb fynediad i Fan Croeso Cynnes o fewn taith gerdded 30 munud o'u cartref.

### A allai Cymru gyrraedd Sero Net erbyn 2035?

Yn 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (dan y cytundeb cydweithredu ar y pryd) Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 i weld a ellid dwyn y targed presennol i Gymru gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 ymlaen i 2035, mewn ffordd fyddai'n gyfiawn a theg i bawb. Ar 16 Medi cyhoeddodd y Grŵp gyfres o adroddiadau yn cwmpasu Addysg, Swyddi a Gwaith; Bwyd; Gwresogi ac adeiladu cartrefi a gweithleoedd; Egni; a Chysylltu pobl (yn ddigidol ac o ran trafnidiaeth).

Mae Cytûn wedi cyfrannu at drafodaethau gyda'r Grŵp Her fel rhan o'i aelodaeth o Climate Cymru, ac yn gobeithio y bydd yr adroddiadau hyn yn helpu i lywio gweithredoedd Llywodraeth bresennol Cymru a maniffestos etholiad y Senedd yn 2026. Gobeithir y byddant hefyd yn herio'r gymdeithas gyfan – gan gynnwys eglwysi – i weithredu yn yr adeiladau a'r cymunedau lle maent wedi eu lleoli.

### PWYSIG: Arolwg o weithgareddau i blant yng Nghymru


Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio arolwg ar gyfer darparwyr gofal plant, chwarae a gweithgareddau i blant dan 12 oed nad ydynt wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel Gwarchodwr Plant neu ddarparwr Gofal Dydd o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Byddai hyn yn cynnwys Ysgolion Sul, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau a bron y cyfan o weithgareddau plant pob enwad crefyddol yng Nghymru.

Mae Cytûn yn aelod o Grŵp Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar y mater, ac mae cryn bwysau ar y Llywodraeth i gofrestru a rheoleiddio'n dynnach weithgareddau o'r fath, gan gynnwys gweithgarwch eglwysi. Mae'n bwysig felly fod eglwysi yn ymateb i ddangos rhychwant, pwysigrwydd a diogelwch ein gweithgareddau ar gyfer plant dan 12 oed.

**Os ydych yn gyfrifol am weithgarwch Cristnogol lleol i blant, byddem yn eich annog i gymryd rhan yn yr arolwg: https://www.smartsurvey.co.uk/s/EANZAY/** ac i dynnu sylw eraill o fewn eich eglwys leol sydd hefyd yn gyfrifol. Bydd yr arolwg yn dod i ben ar 8 Tachwedd 2024.

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 6. 'Yr adrodd yn ôl i Naomi' (Ruth 2:17–23)

Wrth barhau ein taith drwy Lyfr Ruth rydym eto'n cael ein hatgoffa o'r ffordd y mae llaw Duw yn darparu'n ymarferol ar gyfer ei bobl.

Yn sicr, yr wythnos diwethaf, pan welodd Boas Ruth, mi fedrwn ni ddweud mai 'Waw!' oedd ei ymateb. Oedd Ruth yn teimlo'r un fath? Efallai, ond y 'Waw!' i Ruth oedd ei syndod at y fath garedigrwydd roedd Boas yn ei ddangos tuag ati. Roedd Ruth yn edrych ar ei bywyd drwy dristwch ei hamgylchiadau ac erbyn hyn yn methu hyd yn oed â gobeithio. Ond roedd Boas gam ar y blaen iddi. Roedd un o'i weision wedi dweud wrtho am ei chysylltiad â Naomi, ac felly roedd eisoes yn ei hadnabod fel perthynas iddo. Ar ddiwedd y diwrnod mae Ruth yn cael gwybod gan Naomi am gyswllt agos Boas â nhw fel teulu. Ond, o gyfeiriad Boas, mae'r ddrama serch mewn gwaith yn barod a doedd dim gwastraffu amser i fod yma.

Heddiw, fe welwn Ruth, merch sy'n ostyngedig yn ei hamgylchiadau, yn gydwybodol yn ei gwaith ac yn ufudd i'r alwad ar ei bywyd i anwesu'r Arglwydd y mae'n ei adnabod bellach. Wrth gasglu bwyd, mae'n gwneud hynny'n ffyddlon heb feddwl am unrhyw wobr. Adnabod eto ymrwymiad Ruth i Naomi wnawn ni yn ei pharodrwydd i lafurio'n galed i gynnal y ddwy ohonynt.

Wedi casglu'r grawn yng nghaeau haidd Boas tan yn hwyr, mae Ruth yn prysuro wedyn i'w ddyrnu gan droi'n ôl at Naomi hefo cymaint â 15kg (33 pwys) o flawd. Wedi cyrraedd ati, mae Ruth yn adrodd ei hanes yn cyfarfod Boas. Ymateb Naomi ydy: "Bendith yr Arglwydd arno, Nid yw'r ARGLWYDD wedi atal ei drugaredd at y byw na'r meirw" (2:20). Ac yna, mae'n ychwanegu, "Y mae'r dyn yn perthyn inni, ac yn un o'n perthnasau agosaf." Unwaith eto, mae Naomi yn cyfeirio at 'drugaredd' Duw. Daethom at y gair Hebraeg yma am 'drugaredd' yn y bennod gyntaf – y gair 'chesedd', sy'n golygu cariad neu deyrngarwch: gair y gellir hefyd ei gyfieithu â'r gair 'gras', a gair y down i adnabod ei ystyr yn gyflawn yn Iesu Grist.

Eglurodd Ruth wrth Naomi fod Boas wedi dweud wrthi am aros yn ei gaeau ef a 'glynu' wrth ei weision a'i forynion hyd ddiwedd y cynhaeaf. Yn ei doethineb a'i hadnabyddiaeth o arferion a diwylliant ei phobl, mae Naomi yn cytuno mai dyna ddylai Ruth ei wneud gan y byddai hynny'n ymarferol ac yn sicrhau ei diogelwch fel gwraig weddw ifanc. Ond mae mwy na doethineb ac adnabod diwylliant ei phobl yma gan ein bod, yn adnodau 22–3, yn cyfarfod Naomi newydd, un nad ydym wedi ei chyfarfod hyd yn hyn: Naomi sy'n fedrus yn ei gallu i gynllunio neu hyd yn oed i gynllwynio sefyllfaoedd fydd o blaid y ddwy ohonynt. Yng ngharedigrwydd Boas, mae Naomi yn adnabod ffyddlondeb Duw ac yn gweld bod drws gwaredigaeth yn agor o'u blaenau.

Felly, fel y bu i Ruth 'lynu' wrth Naomi a mynd efo hi i Fethlehem, eto rŵan mae hi'n 'glynu' wrth 'lancesau Boas ... hyd ddiwedd y cynhaeaf'.

**Cwestiwn i'w drafod**:

Wrth edrych ar adnod 20 yng nghyd-destun adnod 3, mai 'digwydd' dod at gaeau Boas wnaeth Ruth, fedrwch chi ganfod digwyddiad yn ei bywyd oedd ar yr olwg gyntaf yn edrych fel ffawd ond mewn gwirionedd yn rhagluniaeth Duw?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 20 Hydref – Diolchgarwch**
Mae Lowri Morgan yn ymweld â Gorllewin Morgannwg, cartref Prifwyl yr Urdd 2025, i ddathlu tymor diolchgarwch. Ymhlith ei gwesteion bydd Gareth Richards o Gwm Tawe a'r soprano ddisglair Fflur Wyn. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd yn Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Gwir Barchedig David Morris

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 20 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Jennie Hurd, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd




**Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru**

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# CEWCH GYMORTH MEWN GWEDDI

Mae bywyd yn llawn eiliadau sy’n profi ein gwytnwch – adegau pan fyddwn ni’n teimlo’n flinedig yn emosiynol, yn gorfforol neu’n ysbrydol. Yn yr eiliadau hynny o wendid, gall llefaru gweddïau am nerth fod yn ffordd bwerus o ailgysylltu â Duw, adennill cryfder mewnol, a dod o hyd i heddwch. Mae’r Beibl yn llawn addewidion o gryfder a darpariaeth Duw, gan ein hannog i ddibynnu arno pan fydd ein cryfder ein hunain yn methu.

P’un a ydych chi’n wynebu brwydrau personol, salwch, galar, neu straen bob dydd, mae gweddi yn ffordd i ildio’ch beichiau i Dduw a derbyn Ei gysur a’i arweiniad. Dyma weddïau pwerus am nerth a fydd yn eich helpu ar adegau o wendid, gan ddarparu sylfaen ffydd a gobaith i’ch cario drwodd. Pan fyddwch chi’n teimlo wedi’ch llethu ac yn wan, mae’n hawdd teimlo’n unig. Ond mae Duw yn addo bod gyda chi, gan gynnig ei nerth i’ch cynnal trwy unrhyw brawf. Mae’r gweddïau hyn am nerth wedi’u cynllunio i’ch helpu chi i alw ar Ei bŵer a’i bresenoldeb mewn eiliadau o angen.

### Gweddi am nerth mewn amseroedd heriol

Annwyl Dduw, dwi’n dod atat ti â chalon sy’n cael ei phwyso gan anawsterau. Rwy’n teimlo’n wan ac wedi fy llethu, yn methu â delio â’r beichiau hyn ar fy mhen fy hun. Llenwa fi â dy gryfder a helpa fi i ddibynnu arnat ti. Rwy’n ymddiried yn Dy gynllun ac yn credu mai Ti yw fy lloches, hyd yn oed pan fyddaf ar fy ngwannaf. Caniatâ imi heddwch a dewrder i wynebu bob dydd â ffydd, gan wybod dy fod gyda mi bob amser. Yn enw Iesu, Amen.



*Mae’r weddi hon yn ein hannog i ddod o hyd i loches yn Nuw ar adegau anodd, gan ymddiried yn Ei nerth i’n helpu i ddyfalbarhau.*

### Gweddi am nerth corfforol

Arglwydd, yr wyf wedi blino, ac mae fy nghorff yn teimlo wedi treulio. Gofynnaf am Dy gyffyrddiad iachusol i adnewyddu fy egni ac adfer fy nerth. Ti, yr hwn a greodd bob peth, a wyddost fy anghenion. Cryfha fi, Arglwydd, fel y gallaf gyflawni fy nghyfrifoldebau. Bydded fy ngwendid corfforol yn atgof i ddibynnu arnat Ti am adnewyddiad. Arweiniwch fi wrth ofalu am fy nghorff ac ymddiried yn Dy ddarpariaeth ar gyfer fy lles. Yn dy enw pwerus, Amen.

*Mae’r weddi hon yn ceisio cymorth Duw i adfer cryfder corfforol, boed yn gwella o salwch neu flinder, ac yn ymddiried yn Ei allu iachaol.*

### Gweddi am Nerth Emosiynol

Dad cariadus, mae fy nghalon yn drwm, ac mae emosiynau’n anodd eu rheoli. Rwy’n cael fy llethu gan straen, ofn a phryder. Rwy’n gweddïo am Dy heddwch i dawelu fy ysbryd pryderus. Cryfha fi yn emosiynol, gan ddod ag eglurder, heddwch ac ymddiriedaeth i mi yn Dy reolaeth dros bob peth. Helpa fi i ryddhau fy meichiau i Ti, gan wybod mai Ti fydd yn eu cario. Diolch am fod yn noddfa i mi mewn eiliadau o wendid emosiynol. Yn enw Iesu, Amen.

*Mae’r weddi hon yn cydnabod mai Duw yw ffynhonnell cryfder emosiynol, gan ganiatáu inni ryddhau ein hofnau a’n pryderon i’w ddwylo Ef.*

### Gweddi am nerth i wrthsefyll temtasiwn

Arglwydd Iesu, Rwyt ti’n gwybod y temtasiynau rydw i’n cael trafferth â nhw, ac rydw i’n teimlo’n wan yn eu gwrthsefyll. Gofynnaf am Dy gryfder a’th ddoethineb i oresgyn yr heriau hyn. Helpa fi i sefyll yn gadarn yn fy ffydd a dewis beth sy’n iawn. Llanw fi â’th Ysbryd fel y bydd gennyf y gallu i wrthsefyll temtasiwn. Atgoffa fi dy fod Ti’n fwy nag unrhyw brawf, a thrwot ti y gallaf orchfygu. Yn dy enw di, Amen.

*Mae’r weddi hon yn gofyn am nerth Duw i oresgyn temtasiwn, gan ein helpu i aros yn ffyddlon a gwrthsefyll pechod.*

**Gwyn Elfyn**
*(oddi ar wefan Seion Drefach, 9 Hydref 2024)*




## CYNHADLEDD ANNIBYNWYR Y BYD

**22–26 Mai 2025**
**Thessaloniki, Gwlad Groeg**

Cynhelir cynhadledd bum niwrnod yn ninas Feiblaidd Thessaloniki gyda’r ICF sef Ffederasiwn Annibynwyr Rhyngwladol.

Bydd cyfle dros gyfnod y gynhadledd i ymweld â mannau o bwys yn y ddinas ynghyd â chwrdd â chynrychiolwyr a Christnogion eraill o bob cwr.

Pris y gynhadledd yw $1,150 y pen

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu’r gynhadledd hon cysylltwch â Thŷ John Penri i drafod ymhellach. Codwch y ffôn: (01792) 795888 neu e-bost: undeb@annibynwyr.cymru

# Barn Annibynnol

## Anghydffurfiaeth

Ar 25 Mehefin 1793, anfonodd y Parchedig George Lewis lythyr at Jedidiah Morse (1761–1826), gweinidog Annibynnol yn Boston, Massachusetts. Ysgrifennodd ato i fynegi ei fwriad i ymfudo i'r Unol Daleithiau er mwyn treulio gweddill ei oes yng 'Ngwlad Rhyddid'. Ei ddyhead oedd dianc o Gaernarfon er mwyn gwasanaethu'r Arglwydd Iesu fel gweinidog yn Ohio neu Kentucky.

Nid breuddwyd oedd hyn ond bwriad. Dechreuodd wneud paratoadau i adael. Holodd pa borthladd fyddai orau i hwylio iddo yn Lloegr Newydd; gofynnodd pa lyfrau diwinyddol y dylid eu cario i America. Yna, ar ôl misoedd o aros, ar 15 Ionawr 1794, derbyniodd ateb gan y Parchedig Jedidiah yn ei gymell i fudo i Maine neu Vermont.

### Anghydffurfiwr

Pam yr oedd George Lewis mor awyddus i groesi'r Iwerydd a chychwyn bywyd newydd yn America? Anghydffurfiwr oedd Lewis ac roedd wedi syrffedu ar y ffordd roedd ef a'i bobl yn cael eu trin gan gymdeithas. Grŵp bach o bobl oedd Anghydffurfwyr Caernarfon oedd yn Galfinaidd eu diwinyddiaeth ac yn efengylaidd eu sêl. Gan fod eu syniadau, eu blaenoriaethau, eu hegwyddorion a'u moesoldeb mor wahanol i'r gymdeithas oedd o'u cwmpas, cawsant eu drwgdybio gan eu cymunedau a'u herlid gan yr awdurdodau.

Dyma pam y soniodd Lewis wrth Jedidiah Morse fod yr Anghydffurfwyr yn cael eu 'tanseilio' a'u trin fel rhai oedd yn hyrwyddo 'anghydfod, terfysg a theyrnfradwriaeth'. Roedd Lewis am fudo er mwyn dianc rhag 'ffyrnigrwydd y dorf ddigyfraith' oedd yn ymosod arnynt gan ddifrodi eu heiddo.

### Alltudion a dieithriaid

Er na fyddwn yn wynebu'r un erledigaeth yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, lle'r Cristion ym mhob oes yw bod yn Anghydffurfiwr. Gan fod yr Arglwydd Iesu wedi'n prynu iddo'i hun, nid ydym yn perthyn i ni ein hunain ond rydym yn eiddo iddo ef. Gan mai ef yw ein Harglwydd, mae ein syniadau, ein blaenoriaethau a'n hegwyddorion yn wahanol i'r gymdeithas sydd o'n cwmpas. O ganlyniad, ni fyddwn yn ffitio i mewn yn y byd hwn.

Dyma pam y dywedodd Iesu 'yn y byd fe gewch orthrymder' (Ioan 16:33) ac y soniodd Pedr mai 'dieithriaid ac alltudion' (1 Pedr 2:11) fydd y Cristion yn y byd hwn. Dyma pam y dywedodd Paul na fyddwn yn gartrefol ar y ddaear hon gan mai 'yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth' (Philipiaid 3:20). Dyma'r rheswm pam yr ymbiliodd ar Gristnogion Rhufain i beidio â 'chydymffurfio â'r byd hwn' (Rhufeiniaid 12:2).

### Anghydffurfio neu gydymffurfio?


Wrth i eglwysi Cymru wynebu cyfnod o ddirywiad, gall fod yn demtasiwn tybio y daw adfywiad i Gristnogaeth trwy gydymffurfio â'r byd. Yn wir, gall fod yn ddeniadol meddwl mai'r hyn sy'n rhaid gwneud i annog twf yw dod yn debycach i'r gymdeithas sydd o'n cwmpas. Unwaith y bydd yr eglwys yn rhannu'r un egwyddorion a blaenoriaethau â'r byd, y syniad ydy y bydd Cristnogaeth yn fwy perthnasol, yn fwy poblogaidd ac yn fwy cymeradwy.

Ond camdybiaeth dorcalonnus yw hon. Pam gwrando ar yr eglwys os yw ei neges yr un peth a'r hyn mae'r byd eisoes yn ei chyhoeddi'n awdurdodol ar y cyfryngau cymdeithasol? Yn eironig, pan mae'r eglwys yn cydymffurfio â'r byd mewn ymgais i ddod yn 'berthnasol', mae hi'n dod yn amherthnasol. Trwy gydymffurfio, mae'r eglwys yn colli'r peth unigryw sydd ganddi i gynnig i'r byd: y newyddion da am faddeuant, bywyd, rhyddid, heddwch a gobaith tragwyddol trwy groes ac atgyfodiad Iesu Grist. Yn wir, nid ein cydymffurfiaeth mae ein byd tymhestlog a blinedig ei angen heddiw, ond ein hanghydffurfiaeth.

Dyma'r gwirionedd wnaeth siapio George Lewis. Yn y pendraw, ni ymfudodd i Vermont. Yn hytrach, daeth cyfle iddo gychwyn ar weinidogaeth newydd yn Llanuwchllyn. Er gwaetha'r pwysau i ffitio i mewn, ni wnaeth gydymffurfio. Daliodd ati i bregethu'r efengyl yn wyneb gwawd ei gymdogion. Er mor anodd oedd ei sefyllfa, defnyddiodd Duw ei anghydffurfiaeth i ddod â thwf ac adfywiad i'w eglwys leol. Boed i'r Ysbryd Glân ddefnyddio ein hanghydffurfiaeth ni yn yr un modd heddiw.

**Gwilym Tudur**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



Dydd Gweddi'r Byd
Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)
Cynhelir
**Cynhadledd**
yng Nghapel Bryngwenith
Henllan, Castell Newydd Emlyn
Dydd Mercher 13 Tachwedd
am 11.00
i baratoi ar gyfer
Dydd Gweddi 2025
Cyswllt: Parch. Carys Ann Rhydlewis

Dydd Gweddi'r Byd
Is-bwyllor Cymraeg (Rhyngenwadol)
Cynhelir
**Cynhadledd**
yng Nghapel Y Rhos
Bae Colwyn
Dydd Mercher 20 Tachwedd
am 10.00 - 1.00
i baratoi ar gyfer
Dydd Gweddi 2025
Cyswllt: Mrs Miriam Lewis, Hen Golwyn

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# DATHLU 60 MLYNEDD YN Y WEINIDOGAETH

Ordeiniwyd pedwar o fyfyrwyr Coleg Coffa Abertawe yn 1964 yn cynnwys Emyr Lyn Evans a'r diweddar James Henry Jones, J. Towyn Jones a T. Alwyne Williams. Cafodd Emyr ei godi i'r weinidogaeth yn eglwys Bwlch-y-groes, Ceredigion o dan weinidogaeth y Parchg W. Rhys Nicholas a fyddwch chi ddim hir



yn ei gwmni i sylweddoli dylanwad ei dad yn y ffydd. Byddai'n galw yn Llaindelyn bob dydd Gwener ar y ffordd adref o'r coleg a derbyn cynghorion fu'n gymorth mawr iddo gydol ei weinidogaeth.

Ry'm ni sydd yn gyn-fyfyrwyr y Coleg Coffa yn fythol ddyledus am yr hyfforddiant a gawsom gan y Prifathro Dr Pennar Davies a'r Athrawon D. J. Davies, Trevor Evans a D. P. Roberts ynghyd â chymdeithas arbennig y coleg.

Yn 1964 ordeiniwyd Emyr ar eglwysi'r Green, Fforddlas a Waungoleugoed yn nyffryn clodfawr Clwyd a chael y Parchg Tom Thomas, gweinidog Lôn Swan, yn fentor ardderchog.

Yn dilyn rhai blynyddoedd symudodd i Gibeon, Bancyfelin a Ffynnhonbedr, Meidrim a phriodi Susan, un o ferched glân Ebeneser Castellnewydd, ac yno y ganwyd Iestyn. Cafodd alwad wedyn i Ebeneser Abergwili a Phant-teg yn olynydd i'r Parchg Moelwyn Daniel ac ymhen y rhawg ychwanegwyd Siloam, Pontargothi at yr ofalaeth. Gwasanaethodd yr holl eglwysi yn hollol gydwybodol. Mae'n dal mewn cysylltiad agos â'r pedair eglwys ac ar Sul olaf Medi gweinyddodd wasanaeth bedydd yn eglwys hynafol Pant-teg.

Ar ôl symud i Abergwili apwyntiwyd ef yn gaplan rhan amser yn Ysbyty Glangwili a gwyddom fod pennaeth y gaplaniaeth y Parchg Euryl Howells yn fawr ei werthfawrogiad o gymorth Emyr yn ôl y galw.


Llongyfarchwn Emyr ar y dathliad a dymunwn fendith Duw arno ef a Susan. Diolch am gyfeillgarwch sydd yn ymestyn yn ôl i ddyddiau ysgol a choleg.

**Gareth Morgan Jones**

## Emyr - Ar ddathlu 60 mlynedd

Mae rhyw ddawn a chyflawnder – mwyn o dwym
yn dy hiwmor tyner,
ym mhob poen ac ym mhob her
yn fendith o addfwynder.

**John Gwilym Jones**






Eglwysi Bethesda'r Tymbl, Capel Seion Drefach a Nasareth Pontiets

Bydd ein Gweinidog Y Parch Gwyn Elfyn yn ymddeol ar ddiwedd Rhagfyr 2024 ac mae swyddogion ac aelodau y dair Eglwys yn dymuno galw Gweinidog newydd.

Gwahoddir Gweinidogion ordeiniedig neu rai o dan hyfforddiant i gysylltu er mwyn cael mwy o fanylion gydag un o'r canlynol:-

**Elen Davies**
**E-bost:** elentyrdynol@yahoo.co.uk
Rhif ffon: 07742 560478

neu

**Heddwyn Jones**
**E-bost:** dacefit240@yahoo.co.uk
**Rhif ffon:** 07773 959533

neu

**Gethin Thomas**
**E-bost:** gethintthomas@googlemail.com
**Rhif ffon:** 07773 688769

**Cysyllter erbyn Hydref 31ain 2024**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*